Canllawiau i gyrff dyfarnu ar Amod D6

CYMWYSTERAU CYMRU
QUALIFICATIONS WALES

Canllawiau i gyrff dyfarnu ar newid statws cymwysterau a thynnu cymhwyster yn ôl – Amodau Cydnabod Safonol D6

Cefndir

Rydym yn gyfrifol am reoleiddio cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Rydym yn rheoleiddio'r cyrff dyfarnu sy'n cael eu cydnabod gennym i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau i Ddysgwyr yng Nghymru. Mae pob corff dyfarnu cydnabyddedig yn ddarostyngedig i'n rheolau gan gynnwys y rhai y'u nodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol.

Gwnaethom gynnal adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol yn 2019-20 a chyhoeddwyd Amod D6 ddiwygiedig a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2020. Dywedodd cyrff dyfarnu wrthym yn ystod yr adolygiad y byddai canllawiau yn ddefnyddiol i gefnogi eu cydymffurfiad parhaus gyda'r Amod newydd.

Felly, pwrpas y ddogfen hon ydy cefnogi cyrff dyfarnu gyda chydymffurfio. Nid bod yn ragnodol ydy'r bwriad, ac i'r perwyl hwn, cyfrifoldeb y corff dyfarnu ydy penderfynnu sut mae cydymffyrfio â'i amodau cydnabod.

Hanes y Fersiwn

Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ym mis Mehefin 2021.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth am y ddogfen ganllaw hon, e-bostiwch y Tîm Polisi Rheoleiddio yn polisi@cymwysteraucymru.org.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg.

Cynnwys

1. Cyflwyniad 2
2. Amod D6 2
3. Newid statws neu dynnu cymhwyster yn ôl 3
4. Categorïau cymwysterau rheoledig 4
5. Beth sy'n ofynnol i chi ei wneud o dan Amod D6 5
6. Digwyddiadau lle rydym yn ysgogi newid 10
7. Canllawiau pellach ynghylch y cynllun ysgrifenedig 10
8. Canllawiau ymarferol ynghylch sut i wneud y newidiadau yng nghronfa ddata QiW 12
9. Dysgwyr 13
Atodiad 1 - Amod D6 14

1. Cyflwyniad

1.1 Mae pob cymhwyster a gynigir gan gyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym ni yn cael ei reoleiddio gennym ni, oni bai bod y corff dyfarnu wedi ildio cydnabyddiaeth ar gyfer unrhyw gymwysterau.

1.2 Mae'r holl gymwysterau sy'n cael eu cydnabod gennym ni (h.y. o fewn cwmpas cydnabyddiaeth y corff dyfarnu) yn dod o fewn un o dri chategori. Y tri chategori o gymwysterau rheoledig yw Cymeradwy, Dynodedig neu Reoledig Arall. Mae cymwysterau Cymeradwy a Dynodedig yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni astudio a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

1.3 Pan fydd corff dyfarnu yn dymuno tynnu cymhwyster yn ôl neu newid statws cymhwyster, rhaid iddo gydymffurfio ag Amod D6.

2. Amod D6

2.1 Mae Amod D6 yn nodi'r hyn yr ydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu ei wneud pan fydd cymwysterau yn newid statws neu pan fydd y corff dyfarnu yn tynnu cymhwyster yn ôl. Mae Atodiad A yn cynnwys testun llawn Amod D6.

2.2 Pwrpas Amod D6 yw gwarchod Dysgwyr sy'n ceisio ennill y cymwysterau sy'n newid eu statws neu sy'n cael eu tynnu'n ôl. Pan fydd cymhwyster yn newid statws neu'n cael ei dynnu'n ôl, gallai olygu nad yw Dysgwyr bellach yn gallu cymryd y cymwysterau hynny a gallent gael eu heffeithio'n andwyol. Gallai newid statws hefyd effeithio ar ganolfannau ac felly Dysgwyr pan nad yw'r cwrs y mae'r cymhwyster yn arwain ato bellach yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus. Mae'r Amod hwn yno i warchod Dysgwyr ac mae'n rhaid i gyrff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i warchod eu buddiannau o ran unrhyw newid yn statws y cymhwyster hwnnw.

> *D6.4 Os yw corff dyfarnu yn bwriadu newid statws cymhwyster neu ei dynnu'n ôl neu os yw'n credu ei bod yn debygol o wneud hynny neu os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau Dysgwyr mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw.*

2.3 Mae Dysgwr yn derm diffiniedig yn yr Amodau Cydnabod Safonol. I gael diffiniad, gweler yr adran briodol isod.

3. Newid statws neu dynnu cymhwyster yn ôl

3.1 Mae newid statws yng nghyd-destun Amod D6 yn golygu:

i. bod y cymhwyster yn newid categori - rhwng Cymeradwy, Dynodedig a Rheoledig Arall; a /neu
ii. nid yw'r cymhwyster bellach ar gael i Ddysgwyr oherwydd, er enghraifft nad yw'n fyw (h.y. mae'r dyddiad dod i ben wedi mynd heibio, neu mae'r dynodiad wedi dod i ben).

3.2 Mae D6.1 yn ymdrin ag amgylchiadau lle mae cymhwyster yn cael ei dynnu'n ôl h.y. nid yw bellach yn cael ei reoleiddio o gwbl. Tynnir cymhwyster yn ôl oherwydd bod y corff dyfarnu yn ei dynnu'n ôl, neu mae Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu ei dynnu'n ôl. Mae'n golygu nad yw'r cymhwyster yn cael ei reoleiddio neu na fydd yn cael ei reoleiddio bellach ac y bydd yn cael ei ddileu o'r farchnad reoledig.

3.3 Mae Amod D6.1 yn nodi'r amgylchiadau ar gyfer tynnu cymhwyster yn ôl fel a ganlyn:

i. mae'r corff dyfarnu yn peidio â chofrestru Dysgwyr ar gyfer y cymhwyster; neu

ii. yn peidio â chyflwyno neu ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw i Ddysgwyr; neu

iii. yn ildio ei gydnabyddiaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw; neu

iv. mae Cymwysterau Cymru yn tynnu ei gydnabyddiaeth yn ôl mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw.

3.4 Mae amodau D6.2 a D6.3 yn nodi'r amgylchiadau pan fydd cyrff dyfarnu yn newid categori cymwysterau Cymeradwy a Dynodedig, yn y drefn honno.

3.5 Gallai cymwysterau newid statws am nifer o resymau. Gallai'r rhain fod oherwydd penderfyniadau a gymerwch chi fel corff dyfarnu neu gallent fod oherwydd penderfyniadau a gymerir gennym ni. Er enghraifft, gallai corff dyfarnu benderfynu nad yw bellach yn dymuno cynnig cymhwyster penodol a rhoi cynllun ar waith i reoli'r newid hwnnw. Yn yr un modd, gallwn gymryd camau a fydd yn newid statws cymhwyster e.e. gallwn ddirymu dynodiad cymhwyster dynodedig neu gyfyngu ar nifer y cymwysterau ar ffurf benodol y gellir eu cynnig yn y farchnad. Pan fyddwn yn cyflwyno cymhwyster Cymeradwy newydd i'r

farchnad, yna gellid effeithio ar gymwysterau Dynodedig sy'n debyg neu o'r un math a gallem eu dirymu.

3.6 Mae rhan gyntaf y canllawiau hyn yn cwmpasu'r enghreifftiau lle mae'r corff dyfarnu yn bwriadu newid statws cymhwyster. Ymdrinnir â digwyddiadau lle rydym ni yn cyflwyno newidiadau yn nes ymlaen yn y canllawiau (e.e. lle rydym yn dirymu dynodiad neu'n tynnu cymeradwyaeth neu gydnabyddiaeth yn ôl). Cyn gwneud hynny, mae'r adran nesaf o'r canllaw yma'n disgrifio'r tri math o gymwysterau rheoledig, sy'n rhoi cyd-destun defnyddiol i newidiadau yn statws cymwysterau yng nghyd-destun Amod D6.

4. Categorïau cymwysterau rheoledig

4.1 Mae cymwysterau a reoleiddir gennym yn perthyn i dri chategori;

- Cymeradwy;
- Dynodedig; a
- Rheoledig Arall.

Cymwysterau categori cymeradwy (cyfyngedig ac anghyfyngedig)

4.2 Disgrifir cymeradwyaeth yn Adran 22 Deddf Cymwysterau Cymru (2015).

4.3 Cymwysterau categori cymeradwy yw'r cymwysterau hynny sydd fel arfer wedi'u dylunio gennym ni ar gyfer Dysgwyr yng Nghymru.

4.4 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y cymwysterau hyn hefyd wedi'u cyhoeddi ar ein Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol gan ein bod ni a Llywodraeth Cymru wedi'u nodi fel y flaenoriaeth uchaf i Ddysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru.

4.5 Fel arfer cyhoeddir Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau hyn. Rhaid i gorff dyfarnu sy'n dymuno cynnig cymwysterau Cymeradwy fodloni ein gofynion yn gyntaf, fel y nodir nhw yn y Meini Prawf Cymeradwyo.

4.6 Wedi iddynt cael eu cymeradwyo, gall y corff dyfarnu gynnig y cymwysterau hyn ac maent yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus i Ddysgwyr o dan 19 oed.

4.7 Mae'r uchod yn ddull marchnad agored, lle nad ydym wedi cyfyngu ar nifer y mathau o gymwysterau Cymeradwy y gellir eu darparu yn y farchnad. Ar y llaw arall, os ydym yn cyfyngu ar nifer y cymwysterau Cymeradwy, yna byddwn naill

ai'n dewis neu'n comisiynu / tendro er mwyn sicrhau y nifer o ffurfiau o'r cymwysterau Cymeradwy yr ydym wedi eu pennu drwy gyfyngiad.

Cymwysterau categori dynodedig

4.8 Diffinnir *dynodiad* a beth yw *cymhwyster Dynodedig o* dan Ran 5 ac yn Adran 29 Deddf Cymwysterau Cymru (2015).

4.9 Rhaid i gymwysterau Dynodedig fodloni ein gofynion fel y nodir nhw yn ein Polisi Dynodi a'n Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau.

4.10 Ar ôl eu dynodi maent yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus i Ddysgwyr o dan 19 oed.

4.11 Fel arfer, mae cymwysterau o fewn y categori hwn, wedi'u datblygu y tu allan i Gymru ac maent ar gael i Ddysgwyr yng Nghymru yn ogystal â chael eu cynnig i Ddysgwyr i'w cymryd mewn llefydd eraill.

Cymwysterau categori rheoledig arall

4.12 Cymwysterau Rheoledig Arall, yw'r holl gymwysterau eraill sy'n cael cynnig gan gyrff dyfarnu sydd wedi eu rheoleiddio gennym ni nad ydyn nhw naill ai wedi'u cymeradwyo na'u dynodi.

4.13 Nid yw Cymwysterau Rheoledig Eraill yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus i Ddysgwyr o dan 19 oed.

4.14 Mae'r tri chategori o gymwysterau yn cael eu rheoleiddio gennym ni a gall cyrff dyfarnu gynnwys ein logo ar dystysgrifau ar gyfer pob un ohonynt. Mae holl gymwysterau'r corff dyfarnu yn cael eu rheoleiddio gennym ac yn dod o fewn y tri chategori cymwysterau, oni bai ein bod ni neu'r corff dyfarnu wedi eu tynnu'n ôl neu eu hildio rhag cael eu cydnabod. Pa bynnag gategori y mae'r cymhwyster ynddo, os ydyw'n symud i gategori arall, yna mae'n newid statws, ac mae'n rhaid i gyrff dyfarnu gydymfurfio ag Amod D6 o ran hyn.

5. Beth sy'n ofynnol i chi ei wneud o dan Amod D6

5.1 Pan fyddwch yn bwriadu gwneud newid i statws cymhwyster, rhaid i chi:

i.	Ein hysbyu ni am y newid a ragwelir;
ii.	Paratoi, cynnal a chydymffurfio â chynllun ysgrifenedig yn brydlon, gan ddangos eich bod yn cymryd pob cam rhesymol i warchod buddiannau Dysgwyr;
iii.	Darparu gwybodaeth glir a chywir am y newid i'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio;
iv.	Diweddaru cronfa ddata QiW;
v.	Cydymffurfio â'r holl Amodau Cydnabod wrth wneud y newid; a
vi.	Chydymffurfio ag unrhyw ofynion a roddwn i chi yn ysgrifenedig.

5.2 Nodir y canllawiau ynghylch pob un o'r chwe cham isod:

i. Ein hysbysu

Mae angen i chi ein hysbysu o'ch bwriad i wneud newidiadau i statws, neu dynnu cymhwyster yn ôl ac mae angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig trwy gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW). (Am wybodaeth fanylach ar sut i wneud hynny yn QiW, gweler yr adran berthnasol isod).

Rhaid i chi wneud hynny hefyd cyn darparu gwybodaeth i unrhyw Ddysgwyr, canolfannau, neu brynwyr cymwysterau, yn unol ag Amod D6.5.

Yn ymarferol, bydd angen i gorff dyfarnu fod wedi cysylltu â chanolfannau a neu Ddysgwyr cyn ein hysbysu ni er mwyn canfod a fyddai yna effaith ar ganolfannau a/neu Ddysgwyr. Ond ymholiadau cychwynnol yw'r rheini er mwyn nodi effeithiau posibl ac ystyried pa benderfyniad i'w wneud. Ar ôl i chi wneud penderfyniad terfynol, rhaid i chi ein hysbysu yn ysgrifenedig am eich penderfyniad cyn i chi hysbysu canolfannau neu Ddysgwyr.

Rydym yn gofyn am rybudd rhesymol o unrhyw newid statws a ragwelir neu am dynnu cymhwyster yn ôl, er mwyn gallu ystyried unrhyw faterion, sicrhau bod buddiannau Dysgwyr yn cael sylw dyledus a gweld a oes angen i ni gyfleu unrhyw ofynion pellach i chi yn ysgrifenedig fel rhan o'r broses.

ii. Paratoi cynllun

Unwaith y byddwch yn ymwybodol y bydd newid mewn statws neu eich bod yn tynnu cymhwyster yn ôl, rhaid i chi baratoi, cynnal a chydymffurfio â chynllun gweithredu ysgrifenedig ar unwaith. Bydd y cynllun yn dangos sut rydych chi wedi ystyried effaith y newid ar Ddysgwyr a sut rydych chi'n bwriadu gweithredu'r newid.

Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i warchod buddiannau Dysgwyr. Bydd angen i'r cynllun amlinellu pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd i warchod buddiannau unrhyw Ddysgwyr sy'n ceisio ennill y cymhwyster. Mae hyn yn cynnwys Dysgwyr nad ydynt eto wedi cofrestru ar gyfer y cymhwyster ond sy'n paratoi i wneud hynny. Gweler mwy o fanylion am y diffiniad o Ddysgwyr isod. Disgwyliwn i chi gysylltu â'ch canolfannau cymeradwyedig (y rhai a gymeradwywyd i gyflwyno'r cymhwyster dan sylw) a chanfod a oes unrhyw Ddysgwyr yn gweithio tuag at y cymhwyster. Os yw'r newid mewn statws yn golygu na fydd y ganolfan yn gallu tynnu cyllid cyhoeddus i lawr mwyach, yna fe fydd y cynllun yn nodi sut y bydd y newid hwn yn effeithio ar ganolfannau ac felly ar Ddysgwyr, a sut rydych chi'n mynd i roi'r newid ar waith wrth reoli unrhyw effeithiau ar Ddysgwyr yr un pryd.

Pan fydd gennych gynllun ar waith, rhaid i chi sicrhau eich bod yn gweithredu'r cynllun hwnnw a hefyd yn cadw'r cynllun yn gyfredol a'i adolygu'n rheolaidd.

Efallai y byddwn am weld eich cynllun a rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw ofynion yr ydym yn eu cyfleu i chi yn ysgrifenedig am y cynllun.

Mae canllaw pellach am yr hyn y dylid ei gynnwys yn y cynllun ei hun ar gael yn yr adran isod o'r enw 'Canllawiau pellach ynghylch y cynllun ysgrifenedig.'

iii. Rhoi gwybodaeth glir a chywir am y newid i Ddysgwyr, canolfannau a phrynwyr y cymhwyster

Cyn gwneud unrhyw newidiadau, mae'n bwysig eich bod chi'n cyfathrebu'n glir ac yn gywir gyda'r holl randdeiliaid hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newid.

Mae hefyd yn bwysig fod pob cyfathrebiad yn cael ei wneud yn brydlon fel y gall canolfannau gynllunio eu darpariaeth a pharatoi Dysgwyr yn effeithiol ar gyfer asesiadau, fel nad yw Dysgwyr yn cael eu heffeithio'n andwyol gan unrhyw newidiadau.

Wrth wneud newidiadau i gymwysterau, mae angen i chi ddiweddaru'ch holl wybodaeth a dogfennaeth gyhoeddedig i adlewyrchu'r newidiadau fel bod yr holl randdeiliaid yn ymwybodol o unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Mae cadw gwybodaeth yn gywir ac yn gyfredol yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr cymwysterau y wybodaeth gywir ar gael iddynt i wneud penderfyniadau effeithiol ac nad ydynt yn cael eu camarwain gan wybodaeth anghywir am argaeledd cymwysterau a'u cymhwysedd i gael eu defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer Dysgwyr dan 19 oed.

Yn fwy cyffredinol, rhaid cadw'ch holl ffynonellau gwybodaeth sydd wedi'u cyhoeddi yn gyfredol bob amser. Mae'n ofynnol sicrhau o dan Amod B5.1 nad yw cyrff dyfarnu yn gwneud datganiadau a allai gamarwain defnyddiwr cymwysterau i feddwl bod cymhwyster mewn categori gwahanol i'r hyn ydyw mewn gwirionedd. Er enghraifft, mae angen i ddefnyddwyr cymwysterau wybod pa gymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio o'u cymharu â'r rhai nad ydyn nhw'n cael eu rheoleiddio ac yn yr un modd, y rhai sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus a'r rhai sydd ddim.

iv. Diweddaru cronfa ddata QiW

Mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu gadw'r wybodaeth yn gyfredol ac yn gywir ar gronfa ddata QiW. Yn hyn o beth, bydd angen nodi gwybodaeth am unrhyw gymhwyster sy'n cael ei dynnu'n ôl neu unrhyw newidiadau i statws cymhwyster ar QiW mewn modd amserol. Bydd hyn yn sicrhau bod defnyddwyr cymwysterau yn gallu dibynnu ar gywirdeb y data hyn i wneud penderfyniadau am eu dewis o gymwysterau, ac yn yr un modd, y gallwn ninnau ddibynnu ar y data hyn er mwyn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio yn effeithiol.

Rhoddir canllawiau ymarferol am sut i wneud y newidiadau ar QiW mewn adran isod.

v. Cydymffurfio â'r holl Amodau Cydnabod perthnasol

Wrth gynllunio i wneud unrhyw newid neu yn ystod ac ar ôl gweithredu unrhyw newidiadau, rhaid i chi wneud hynny mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'ch amodau cydnabod. Y rhain fydd yr Amodau Cydnabod Safonol ac unrhyw amodau sy'n benodol i'ch cymhwyster a /neu i'ch corff dyfarnu chi.

Mae'n bwysig nodi bod Amodau A-J yn rhyng-gysylltiedig a bod Amodau eraill sy'n cysylltu ag Amod D6. Er enghraifft, yn unol ag A6, rhaid i gyrff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i nodi'r risg o unrhyw ddigwyddiad a allai gael effaith andwyol. Byddai hyn yn cynnwys nodi unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â newid statws cymhwyster neu dynnu cymhwyster yn ôl o'r farchnad reoledig.

Yn yr un modd, mae B3.1 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu ein hysbysu ni ar unwaith pan fydd ganddo achos i gredu bod unrhyw ddigwyddiad wedi digwydd neu ei fod yn debygol o ddigwydd a allai gael Effaith Niweidiol. Mae hyn yn berthnasol os yw newid mewn statws cymhwyster neu dynnu cymhwyster yn ôl yn debygol o arwain at Effaith Niweidiol neu wedi gwneud hynny.

Dywed B5.1 ni ddylai corff dyfarnu wneud unrhyw ddatganiad (ac mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd unrhyw berson cysylltiedig yn gwneud unrhyw ddatganiad) a fyddai'n debygol o arwain defnyddwyr cymwysterau i feddwl bod eu cymhwyster yn:

(a) Gymhwyster Rheoledig pan nad yw'n Gymhwyster Rheoledig;
(b) Cymhwyster Cymeradwy pan nad yw'n Gymhwyster Cymeradwy, neu yn
(c) Gymhwyster Dynodedig pan nad yw'n Gymhwyster Dynodedig.

Rhaid i'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr cymwysterau fod yn gywir bob amser. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod categori'r cymhwyster (Rheoledig / heb ei reoleiddio, yn ogystal â Chymeradwy / Dynodedig / Rheoledig Arall) yn cael ei gyfathrebu'n gywir.

Yn yr un modd, pan rydych yn hysbysebu neu hyrwyddo eich cymwysterau, ni ddylech chi wneud hyn mewn modd sy'n debygol o fod yn gamarweiniol, fel y nodir yn Amod B5.2.

Pan fydd cymhwyster yn cael ei dynnu'n ôl fel cymhwyster rheoledig ond yn parhau i fod ar gael fel un heb ei reoleiddio, mae angen i gorff dyfarnu gyfathrebu'n glir beth yw'r newid yn statws rheoledig y cymhwyster er mwyn osgoi drysu neu gamarwain defnyddwyr cymwysterau a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Amod B5.1.

Mae Amod E6 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y data a gedwir ar gronfa ddata QiW am y cymwysterau hyn yn gywir.

Mae amodau B5.3 ac I3.1 hefyd yn berthnasol, oherwydd mae gennym ofynion o ran defnyddio ein logo a dim ond cymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio gennym ni ddylai arddangos ein logo. Unwaith eto, os yw statws cymhwyster yn newid ac nad yw'n cael ei reoleiddio gennym ni mwyach, yna ni ddylai ein logo ymddangos bellach ar dystysgrifau a rhaid i chi beidio â chamarwain unrhyw ddefnyddwyr y cymwysterau bod y cymhwyster hwnnw'n cael ei reoleiddio pan nad ydyw.

Wrth gydymffurfio â D6, rhaid i gyrff dyfarnu roi sylw dyledus i'r holl ddogfennau rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys polisïau a chanllawiau.

vi. Cydymffurfio ag unrhyw ofynion yr ydym yn eu cyfleu i chi yn ysgrifenedig ynghylch y mater

Efallai y byddwn eisiau gweld eich cynllun ac yn unol â B4, os ydym yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig yn gofyn am y cynllun, yna mae'n rhaid i chi ddarparu'r cynllun a hynny o fewn unrhyw derfynnau amser a bennir gennym, a sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn gywir ac yn gyflawn.

Yn unol â D6.7, rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio ag unrhyw ofynion a gyfathrebwn yn ysgrifenedig i chi ynglŷn â'r cynllun ysgrifenedig.

6. Digwyddiadau lle rydym yn ysgogi newid

6.1 Mae yna benderfyniadau rydyn ni'n eu cymryd fel rheoleiddiwr sydd hefyd yn effeithio ar statws cymwysterau. Er enghraifft, byddai newid statws yn digwydd pe byddem yn dirymu dynodiad o ganlyniad i gyflwyno cymwysterau blaenoriaeth gyfyngedig newydd i ddiwallu angen penodol yng Nghymru, neu pe bai cymwysterau'n cael eu tynnu'n ôl oherwydd ein bod wedi tynnu cydnabyddiaeth corff dyfarnu yn ôl. Er y byddwn yn cychwyn y rhain ac yn cyfathrebu â chyrff dyfarnu yr effeithir arnynt yn ysgrifenedig am y rhain, mae yna weithgareddau y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu eu cyflawni o hyd i addo i barhau i gydymffurfio o dan D6.

6.2 Byddai'r rhan fwyaf o gamau a amlinellir yn y canllawiau hyn yn yr adran flaenorol yn parhau i fod yn berthnasol ac eithrio cam 1 - ein hysbysu, oherwydd byddem wedi ysgrifennu i'ch hysbysu.

7. Canllawiau pellach ynghylch y cynllun ysgrifenedig

7.1 Mae Amod D6.6 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu baratoi cynllun ysgrifenedig ynghylch unrhyw newid mewn statws neu dynnu cymhwyster yn ôl. Rhaid i'r cynllun hwn nodi sut y bydd buddiannau Dysgwyr mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw yn cael eu gwarchod.

7.2 Unwaith y bydd y cynllun yn ei le, mae'n ofynnol hefyd i gorff dyfarnu o dan D6 gynnal a chydymffurfio â'r cynllun hwnnw.

7.3 Ymhellach, yn unol ag Amod D6.7, ar gyfer unrhyw gynllun y mae corff dyfarnu yn ei baratoi, rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodwn yn ysgrifennedig sy'n ymwneud â'r cynllun hwnnw.

7.4 Pan rydych chi'n llunio'ch cynllun, dyma enghreifftiau o feysydd i'w cynnyws (ond dydy'r rhestr hon ddim yn eich atal rhag cynnwys rhai eraill):

- amserlenni clir;
- esboniad pam mae'r cymhwyster yn cael ei dynnu'n ôl neu ei newid o ran statws;
- gwybodaeth am nifer y Dysgwyr neu'r canolfannau a allai gael eu heffeithio;
- ystyried faint sy'n cofrestru am y cymhwyster a'i ddiben, a chynnwys sut y bydd gwybodaeth amserol a pherthnasol yn cael ei darparu i Ddysgwyr, canolfannau a phrynwyr cymwysterau am gymwysterau amgen neu gymwysterau newydd sydd ar gael a sut mae'r rhain yn wahanol i'r cymhwyster sy'n cael ei dynnu'n ôl neu sy'n newid statws;
- gwybodaeth am sut y bydd buddiannau Dysgwyr sy'n cymryd y cymhwyster yn cael eu gwarchod; a'r
- camau y mae'r corff dyfarnu yn mynd i'w cymryd i roi'r newidiadau ar waith yn effeithiol ac i reoli unrhyw effeithiau ar ganolfannau a Dysgwyr ac unrhyw randdeiliaid eraill.

7.5 O ran gweithredu, dylai'r corff dyfarnu:

- gyflwyno'r cynllun yn effeithiol, gan ei adolygu'n rheolaidd (gan gynnwys ceisio adborth a'i ddadansoddi gan ganolfannau ynghylch sut mae tynnu'r cymhwyster yn ôl neu newid ei statws yn gweithio) a newid y cynllun, yn ôl yr angen; a'n
- hysbysu yn ôl yr angen a gwneud y diweddariadau priodol yn QiW i sicrhau bod gwybodaeth am y cymwysterau yn gywir ac yn gyfoes ar gyfer darpar ddefnyddwyr a defnyddwyr presennol y cymhwyster.

7.6 Mae cyfathrebu yn allweddol trwy gydol y broses newid. Dylai'r corff dyfarnu ddarparu gwybodaeth berthnasol ac amserol i ddefnyddwyr am y cymhwyster sy'n cael ei dynnu'n ôl neu sy'n newid ei statws. Dylai'r wybodaeth hon fod yn gymesur ag effaith y tynnu'n ôl neu'r newid mewn statws, a gallai gynnwys (lle bo hynny'n berthnasol):

- pa gymwysterau sy'n cael eu tynnu'n ôl neu sy'n newid statws, a pham;
- sut y gallai tynnu'r cymwysterau yn ôl neu newid eu statws effeithio ar Ddysgwyr / pa Ddysgwyr ac ar ba adegau;
- dyddiadau ar gyfer cofrestru Dysgwyr newydd yn derfynol, ac asesiadau a chyfleoedd i ail-sefyll y cymwysterau ar gyfer Dysgwyr presennol;
- gwybodaeth am ddyddiadau cau ar gyfer cwblhau camau penodol; a
- threfniadau i Ddysgwyr newid i gymwysterau amgen, os yw hynny'n briodol.

8. Canllawiau ymarferol ynghylch sut i wneud y newidiadau yng nghronfa ddata QiW

8.1 Cymwysterau yng Nghymru (QiW) yw'r gronfa ddata sy'n cynnwys yr holl gymwysterau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Pan fyddwch chi'n newid dyddiadau gorffen gweithredol cymwysterau, rydych chi'n gwneud hyn trwy QiW. Pan fyddwch chi'n newid statws cymhwyster, mae angen adlewyrchu hyn ar QiW. Hefyd, pan fyddwch yn tynnu cymhwyster yn ôl fel nad yw bellach yn cael ei reoleiddio gennym ni, mae angen tynnu hwn o QiW. Mae rhan hon y canllawiau yn rhoi cefnogaeth ymarferol am sut i wneud y camau pwysig hyn i sicrhau bod y gronfa ddata'n gywir.

Sut i dynnu cymhwyster yn ôl trwy QiW

8.2 Rhaid i chi roi **rhybudd o'ch bwriad i dynnu** cymhwyster yn **ôl** trwy ofyn am ddod â'r Dyddiad Dod i Ben Gweithredol a'r Dyddiad Diwedd Tystysgrifo ymlaen trwy'r broses ddiwygio ar gronfa ddata QiW. Rhaid i chi hefyd ychwanegu sylw at QiW yn nodi eich bod yn tynnu'r cymhwyster yn ôl, gan gynnwys nodyn am unrhyw effeithiau ar Ddysgwyr, a rhaid i chi gadarnhau eich bod yn cydymffurfio ag Amod D6. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i gael mwy o wybodaeth gan gynnwys manylion eich cynllun tynnu'n ôl cyn i ni gymryd y cam ymarferol nesaf i archifo'r cymhwyster hwn ar QiW.

8.3 Yn syml, ni fydd newid y dyddiadau dod i ben yn ddigonol. Daw'r holl gymwysterau dynodedig yn gymwysterau rheoledig eraill ar QiW unwaith y bydd Dyddiad Diwedd Tystysgrifo wedi mynd heibio. Felly, os nad oes gennym y sylw ynghylch tynnu'n ôl ac amod D6, bydd y cymhwyster yn parhau i fod ar QiW fel un Rheoledig Arall ond ni fydd yn Ddynodedig mwyach.

Sut i newid statws cymhwyster trwy QiW

8.4 Rhaid i chi roi rhybudd o'ch bwriad i newid statws cymhwyster trwy'r gronfa ddata QiW.

8.5 Os ydych am newid 'cymhwyster rheoledig arall' i 'dynodedig', pwyswch y botwm priodol ar gofnod y cymhwyster a chyflwynwch y wybodaeth a'r dystiolaeth ychwanegol fel sy'n ofynnol ar gyfer y broses ddynodi.

8.6 Os ydych am newid 'cymhwyster dynodedig' i 'rheoledig arall', bydd angen i chi newid y Dyddiad Dod i Ben Gweithredol a'r Dyddiad Diwedd Tystysgrifo ac ychwanegu sylw yn nodi eich bod am ddod â dynodiad y cymhwyster i ben. Bydd angen i chi ychwanegu nodyn yn nodi a fydd yna effaith ar Ddysgwyr ac

mae angen i chi gadarnhau hefyd eich bod yn cydymffurfio ag Amod D6. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth, gan gynnwys gofyn am fanylion eich cynllun neu gopi o'r cynllun.

8.7 Mae cymwysterau dynodedig yn newid yn awtomatig i statws Rheoledig Arall pan fydd dyddiad diwedd y tystysgrifo yn mynd heibio, oni bai eich bod yn gofyn yn wahanol.

8.8 Mae QiW yn anfon e-bost awtomataidd chwe mis cyn y Dyddiad Dod i Ben Gweithredol yn rhybuddio am y dyddiadau diwedd sy'n agosáu. Dylai hyn fod yn ysgogiad i chi ymestyn dynodiad y cymhwyster neu, os na wnewch ddim, byddwn yn cymryd hyn fel hysbysiad eich bod am i'r cymhwyster newid i statws Rheoledig Arall.

Sut i newid dyddiadau ar QiW

8.9 Mae cyngor a chanllawiau ar-lein ar www.qiw.wales neu www.cymwysteraucymru.org, neu gallwch gysylltu â'r tîm yn uniongyrchol ar recognitionandapproval@qualificationswales.org i gael cymorth.

9. Dysgwyr

9.1 Diffinnir **Dysgwr** yn yr Amodau Cydnabod Safonol fel,

> 'unigolyn sy'n ceisio ennill cymwysterau.'

9.2 Yn hyn o beth, mae angen i gyrff dyfarnu warchod buddiannau pob dysgwr sy'n ceisio ennill y cymhwyster. Mae hyn yn golygu gwarchod buddiannau unrhyw Ddysgwyr sydd ar fin cofrestru neu sydd wedi cofrestru ar y cymhwyster yng Nghymru. Mae angen i'r corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i nodi Dysgwyr sydd ar fin cofrestru. Er enghraifft, byddai Dysgwyr sydd wedi'u paratoi ar gyfer yr asesiad neu sydd wedi cofrestru ar gwrs sy'n arwain at yr asesiad hwnnw yn dod o fewn y categori hwn.

Atodiad 1 - Amod D6, Amodau Cydnabod Safonol

Amod D6 - Rheoli'r newid yn statws cymwysterau neu dynnu cymwysterau yn ôl

D6.1 At ddibenion yr Amod hwn, mae corff dyfarnu yn tynnu cymhwyster yn ôl ar yr adeg gyntaf mae'n:

(a) peidio â chofrestru Dysgwyr ar gyfer y cymhwyster;
(b) peidio â chyflwyno neu ddyfarnu'r cymhwyster hwnnw i Ddysgwyr;
(c) ildio'i gydnabyddiaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw; neu
(d) cael ei gydnabyddiaeth wedi ei dynnu'n ôl mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw gan Cymwysterau Cymru.

D6.2 At ddibenion yr Amod hwn, mae corff dyfarnu yn newid statws Cymhwyster Cymeradwy ar yr adeg y mae:

(a) ei Gymeradwyaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw yn dod i ben;
(b) yn ildio'i Gymeradwyaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw; neu
(c) ei Gymeradwyaeth mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw yn cael ei dynnu'n ôl gan Cymwysterau Cymru.

D6.3 At ddibenion yr Amod hwn, mae corff dyfarnu yn newid statws Cymhwyster Dynodedig ar yr adeg pan:

(a) ddaw ei Ddynodiad mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw i ben; neu
(b) mae ei Ddynodiad yn cael ei ddirymu mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw gan Cymwysterau Cymru.

D6.4 Os yw corff dyfarnu yn bwriadu newid statws cymhwyster neu ei dynnu'n ôl neu os y'wn credu ei bod yn debygol o wneud hynny neu os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau Dysgwyr mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw.

D6.5 Rhaid i gorff dyfarnu roi rhybudd rhesymol i Cymwysterau Cymru ei fod yn bwriadu newid statws cymhwyster neu dynnu cymhwyster yn ôl, a rhaid iddo wneud hynny cyn iddo roi'r wybodaeth honno i unrhyw Ddysgwyr, Canolfannau neu brynwyr cymwysterau.

D6.6 Os yw corff dyfarnu yn bwriadu newid statws cymhwyster, neu dynnu cymhwyster yn ôl, neu os yw'n ofynnol iddo newid statws cymhwyster, neu dynnu cymhwyster yn ôl, rhaid iddo wneud y canlynol:

(a) mynd ati ar unwaith i lunio cynllun ysgrifenedig, y mae'n rhaid iddo nodi sut y diogelir buddiannau Dysgwyr mewn perthynas â'r cymhwyster hwnnw, a chynnal y cynllun hwnnw a chydymffurfio ag ef; a

(b) rhoi gwybodaeth glir a chywir am y penderfyniad i newid statws cymhwyster neu dynnu'r cymhwyster yn ôl i Ddysgwyr, Canolfannau a phrynwyr cymwysterau y bydd y penderfyniad hwnnw i newid statws cymhwyster neu dynnu cymhwyster yn ôl yn debygol o effeithio arnynt.

D6.7 Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau bod unrhyw gynllun a gaiff ei lunio ganddo yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion y mae Cymwysterau Cymru wedi'i hysbysu amdanynt yn ysgrifenedig.